# MOLD TOWN COUNCIL
# CYNGOR TREF YR WYDDGRUG

Unit 10
Daniel Owen Precinct
Mold
Flintshire
CH7 1AP

Telephone: 01352 758532
Fax: 01352 755804

Uned 10
Canolfan Daniel Owen
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 1AP

Ffôn: 01352 758532
Ffacs: 01352 755804

www.moldtowncouncil.org.uk

**Aelodau Cyngor Tref yr Wyddgrug**

19eg Medi 2025

Aelodau'r Cyngor

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gelwir trwy hwn i gyfarfod Cyngor Tref yr Wyddgrug a gynhelir am **6.00pm Ddydd Mercher 24ain Medi, 2025** yn Swyddfeydd Cyngor Tref yr Wyddgrug, Uned 10, Canolfan Daniel Owen, Yr Wyddgrug CH7 1AP. Bydd ar gael hefyd drwy Gynhadledd Fideo fel cyfarfod hybrid, gwelwch y ddolen isod.

Yn gywir iawn,

Clerc y Dref a Swyddog Cyllid

## AGENDA

**CYFRANOGAETH Y CYHOEDD**
Mae ymrwymiad gan Gyngor Tref yr Wyddgrug i ymgysylltu â'r gymuned ac felly mae'n estyn croeso cynnes i aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod hwn. Mae Rheolau Sefydlog Cyngor Tref yr Wyddgrug yn caniatáu clustnodi 15 munud o dan yr eitem 'Cyfranogaeth y Cyhoedd' ar yr agenda gan ddyrannu hyd at 5 munud fesul pwnc.

Mae'n rhaid i'r rhai sydd eisiau cyfarch y cyfarfod o dan Gyfranogaeth y Cyhoedd:

- Roi gwybod i Glerc y Dref eu bod eisiau siarad, a hynny erbyn 4.30pm ar y diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor Tref.
- Gyfeirio pob sylw/cwestiwn at gadeirydd y cyfarfod.

Dylai aelodau'r cyhoedd nodi y bydd y cyngor ond yn trafod pynciau sydd wedi eu cyhoeddi ar yr agenda, a dim ond am y rhain y gall wneud penderfyniadau. Os na fydd unrhyw faterion yn cael eu codi, bydd cyfarfod y Cyngor Tref yn cychwyn am 6pm.

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyn **ymddiheuriadau** am absenoldeb

## 2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

**Derbyn** unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb sy'n hysbys am eitemau ar yr agenda

## 3. CYHOEDDIADAU'R MAER

**Derbyn** Cyhoeddiadau'r Maer

## 4. COFNODION

4.1 **Derbyn** cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 28[ain] Gorffennaf 2025 (ynghlwm) a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

4.2 **Derbyn** cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu ac Adfywio Cymuned a gynhaliwyd ar 29[ain] Gorffennaf 2025 (ynghlwm) a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

4.3 **Derbyn** cofnodion Cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd ar 30[ain] Gorffennaf 2025 (ynghlwm) a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

4.4 **Derbyn** cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 26[ain] Awst 2025 (ynghlwm) a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

4.5 **Derbyn** cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Mynwentydd a gynhaliwyd ar 3[ydd] Medi 2025 (ynghlwm) a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

4.6 **Derbyn** cofnodion Cyfarfod Pwyllgor y Cyngor Ieuenctid a Phlant a gynhaliwyd ar 9[fed] Medi 2025 (ynghlwm) a'u cymeradwyo fel cofnod cywir

4.7 **Derbyn** cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu ac Adfywio Cymuned a gynhaliwyd ar 10[fed] Medi 2025 (ynghlwm) a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

4.8 **Derbyn** cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar 16[eg] Medi 2025 (ynghlwm) a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

## 5. CYFLWYNO PROSIECT ISADEILEDD GWYRDD – TÎM ADFYWIAD CYNGOR SIR Y FFLINT

(15 munud yn cynnwys cyflwyniad a chwestiynau)

**Derbyn** cyflwyniad gan gynrychiolwyr y Tîm Adfywiad, Cyngor Sir y Fflint ar y Prosiect Isadeiledd Gwyrdd a fydd yn digwydd yng Nghanolfan Daniel Owen.

**6. GOHEBIAETH**

**Nodi**'r ohebiaeth ddilynol a dderbyniwyd a **chytuno** lle bo raid ar y camau gweithredu sy'n angenrheidiol.

(a) Fit, Fed and Read – adborth gan Gwella.

**7. YMGYNGHORIADAU**

**Nodi'r** ymgynghoriadau agored a ganlyn ac **ystyried** lle bo raid pa gamau gweithredu sydd eu hangen:

(a) Cynllun Datblygiad Lleol Sir y Fflint – Adolygiad o'r Arweiniad Cynllunio Ategol – Dyddiad cau: 5pm Ddydd Gwener 10fed Hydref.

(b) Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ymestyn y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarlledu cyfarfodydd - Ymestyn y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarlledu cyfarfodydd | LLYW.CYMRU Dyddiad Cau: Dydd Gwener 14eg Tachwedd, y Dyddiad Cau Gwirioneddol: 28ain Tachwedd.

(c) Ymgynghoriad Statudol ar Barc Cenedlaethol Arfaethedig Gogledd Ddwyrain Cymru (Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy) Ymgynghoriad Statudol Parc Cenedlaethol Arfaethedig Glyndŵr (Dynodi) 2025 – Cyfoeth Naturiol Cymru Citizen Space - Citizen Space – Dyddiad Cau: 8fed Rhagfyr.

(ch) Adolygiad Annibynnol o Deledu Cylch Cyfyng yng Ngogledd Cymru (ynghlwm)

(d) Strategaeth Dai Sir y Fflint. Ymgynghoriad ar Strategaeth Dai 2025 – 2030 diweddariad draft "Y math iawn o gartrefi, yn y lleoliad iawn, i'r bobl iawn" sydd yn agored yn awr ar wefan Cyngor Sir y Fflint - Strategaeth Ddrafft Tai Sir y Fflint 2025-2030 sef "Y math iawn o gartrefi, yn y lleoliad iawn, i'r bobl iawn" – Dyddiad Cau: 1af Hydref.

**8. RHESTR WEITHREDU**

**Nodwch** y Rhestr Weithredu ddiweddaraf sydd ynghlwm.

**9. ADRODDIADAU SWYDDOGION**

(i) **Derbyn** adroddiad gan y Swyddog Digwyddiadau ac Ymgysylltiad Cymunedol (ynghlwm).

(ii) **Derbyn** adroddiad gan Glerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (ynghlwm).

**CAIS**: Rwy'n ceisio cymeradwyaeth i fynd i'r gweminar Trosglwyddo Asedau sydd ar y gweill gan SLCC, sy'n rhoi trosolwg o drosglwyddo asedau a datganoli gwasanaethau i gynghorau tref, plwyf a chymuned. Mae wedi ei amserlennu ar gyfer 1af Hydref am gost o £30 + TAW.

## 10. POLISÏAU / GWEITHDREFNAU / FFURFLENNI NEWYDD AR GYFER Y FYNWENT

**Ystyried** mabwysiadu'r polisïau / gweithdrefnau a ffurflenni newydd isod ar gyfer y Fynwent sydd wedi cael eu hadolygu a'u cytuno gan y Pwyllgor Mynwentydd:

(a) Hysbysiad am Gladdedigaeth – wedi diweddaru
(b) Polisi Trosglwyddo Hawliau Claddu
(c) Ffurflen Gais am Drosglwyddo Hawliau Claddu
(ch) Polisi Trosglwyddo Hawliau Claddu drwy Ddatganiad Statudol
(d) Ffurflen Datganiad Statudol
(dd) Gweithdrefn ar gyfer Ymdrin â Dadleuon sy'n Ymwneud â Hawliau Claddu neu Berchnogaeth ar Fedd

## 11. CYFARFOD Y GWEITHGOR CYFLEUSTERAU CYHOEDDUS

**Ystyried** yr argymhellion isod o gyfarfod y gweithgor Cyfleusterau Cyhoeddus:

(a) **Trosglwyddo Asedau – Toiledau Gorsaf Fysiau yr Wyddgrug –** ffurflen Mynegi Diddordeb gan Gyngor Sir y Fflint mewn perthynas â Throsglwyddiad Asedau posibl.

(b) **Gweithgor ar gyfer Cyfleusterau Cyhoeddus**

- Sefydlu Gweithgor llai i ystyried opsiynau ar gyfer cyfleusterau cyhoeddus.
- Enwebiadau ar gyfer cynrychiolwyr i gael eu cytuno.

(c) **Cymdeithas Gymunedol Daniel Owen – Cymorth gyda Chyllido**

- Cynyddu cymorth ariannol y Cyngor i'r Gymdeithas o £5,000 i £10,000 y flwyddyn.
- Y £5,000 ychwanegol i gael ei glustnodi yn benodol i gefnogi costau cynnal y cyfleusterau toiledau cyhoeddus.
- Y cyllid ar gyfer y flwyddyn gyfredol i gael ei dynnu o EMR 332 – Toiledau Cyhoeddus DOC.

## 12. GLINIADUR NEWYDD AR GYFER Y SWYDDOG DIGWYDDIADAU AC YMGYSYLLTIAD CYMUNEDOL

**Ystyried** prynu gliniadur newydd i gymryd lle'r ddyfais bresennol, nad oes modd dibynnu arni ar gyfer cysylltiadau USB, pŵer y batri a defnydd mewn digwyddiadau.

- Nid yw pyrth USB y gliniadur yn gweithio'n ddibynadwy, felly mae'n atal cysylltiad â'r Bocs Du ac offer mewn digwyddiadau.
- Nid yw'r batri'n cadw ei wefr ac weithiau mae'r gliniadur yn gwrthod troi ymlaen.

- Mae FHJ Computer Support yn cynghori na ellir trwsio'r pyrth; mae'n argymell cael gliniadur arall.

Cost: Lenovo i5, 16GB RAM, 512GB SSD: £455 + TAW.

**13. MARCHNAD FACH / SIOP FÊPS STRYT WRECSAM – PRYDERON AM ORFODAETH**

**Trafod** pryderon parhaus am y farchnad fach / siop fêps ar Stryt Wrecsam, y dywedwyd ei bod wedi cael ei harchwilio'n ddirybudd nifer o weithiau gan yr awdurdodau ond ei bod yn parhau i weithredu'n fuan wedyn.

**14. CYNNIG GAN Y CYNGHORYDD ROBIN GUEST – AWDIT O'R MEINCIAU CYHOEDDUS**

**Ystyried** gwneud awdit o feinciau cyhoeddus yn yr Wyddgrug i asesu eu cyflwr a phenderfynu pwy sy'n atebol am y gwaith trwsio a'r cynnal a chadw parhaus a gynigir gan y Cynghorydd Robin Guest.

**15. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL GAN GLWB PÊL-DROED MOLD ALEX**

**Ystyried** y ceisiadau sydd ynghlwm am Gymorth Ariannol gan Glwb Pêl-droed Mold Alex

**16. Y FANYLEB AR GYFER TENDRO I DDATBLYGU GWEFAN NEWYDD I GYNGOR TREF YR WYDDGRUG**

Ystyried y fanyleb sydd ynghlwm ar gyfer tendro i ddatblygu gwefan newydd i Gyngor Tref yr Wyddgrug

Ystyried a ddylai aelodau'r Gweithgor Cyllid a Llywodraethiant a argymhellodd wefan newydd, eistedd ar y panel i adolygu a thrafod y tendrau a dderbynnir.

**17. POLISI ABSENOLDEB SALWCH**

**Ystyried** y Polisi Absenoldeb Salwch drafft sydd ynghlwm.

**18. HYSBYSIAD AM BENDERFYNIADAU CYNLLUNIO**

**Nodi'r** adroddiad sydd ynghlwm.

**19. CYFRIFON/TALIADAU**

**Cymeradwyo'r** amserlenni sydd ynghlwm sy'n dangos y cyfrifon i gyd – Mis 4 a 5, yn nodi bod taliadau'n cael eu gwneud yn unol â phwerau'r cynghorau lleol.

## 20. EITHRIO’R CYHOEDD A’R WASG

**Ystyried** eithrio’r cyhoedd a’r wasg o’r cyfarfod o dan Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972, am fod gwybodaeth gyfrinachol neu fasnachol sensitif yn cael ei thrafod.

## 21. PEIRIANT LLUNGOPÏO

**Ystyried** y dyfynbrisiau sydd ynghlwm am dermau prydles newydd ar gyfer peiriant llungopïo i Swyddfeydd y Cyngor Tref.

## 22. CYNNAL A CHADW’R TELEDU CYLCH CYFYNG AR GYFER CANOLFAN BRYN Y BEILI

**Ystyried** y dyfynbrisiau sydd ynghlwm ar gyfer cynnal a chadw’r camerâu Cylch Cyfyng am 3 blynedd ar Ganolfan Bryn y Beili.

**NODWCH:**
Mae caniatâd i aelodau’r wasg a’r cyhoedd fynychu’r cyfarfod hwn (ond nid i siarad heblaw eu bod wedi trefnu hynny o flaen llaw gyda Chlerc y Dref a’r Swyddog Cyllid).

**CYFARWYDDIADAU ZOOM**

**https://us02web.zoom.us/j/89282178432?pwd=30a4yPzsufbbWdZq8oKW7hlPAgb5Ut.1**

**ID y Cyfarfod: 892 8217 8432**
**Cyfrinair: 417632**